**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Prif Weithredwyr
Byrddau Iechyd

17 Chwefror 2022

Annwyl gyfaill,

Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai

Fel rhan o'n hymchwiliad i ryddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai, cymerwyd tystiolaeth gan gynrychiolwyr Gofal a Thrwsio Cymru yn ein cyfarfod ar 14 Chwefror 2022.

Yn ystod y sesiwn, clywsom am y gwasanaeth arloesol *Ysbyty i Gartref Iachach* (H2HH) a'r rôl hanfodol y mae'n ei chwarae o ran sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty i gartref sy'n addas i'w hanghenion. Deallwn fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r gwasanaeth yn genedlaethol tan ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, a bod cyllid dilynol ar gyfer parhad y gwasanaeth ym mhob ardal bwrdd iechyd yn benderfyniad lleol i fyrddau iechyd unigol.

Dywedodd Gofal a Thrwsio wrthym, ar 14 Chwefror, mai dim ond un bwrdd iechyd sydd wedi ymrwymo i ariannu'r gwasanaeth yn ei ardal yn y flwyddyn ariannol nesaf, ac oni bai ei fod yn cael cadarnhad o gyllid gan fyrddau iechyd eraill yn fuan, bydd angen iddo ddechrau. gwneud trefniadau i ddatgomisiynu gwasanaethau, gan gynnwys rhoi rhybudd diswyddo i staff.

Credwn y dylai'r gwasanaeth hanfodol hwn barhau ac nad yw'n dderbyniol bod yr elusen yn cael ei gadael gyda'r ansicrwydd hwn mor agos at ddiwedd y trefniadau ariannu presennol. Rydym am weld cyllid cynaliadwy hirdymor ar gyfer cynlluniau arfer da o’r fath. Rydym felly yn eich annog i roi eglurder i Gofal a Thrwsio o ran eich bwriadau ariannu ar gyfer y gwasanaeth H2HH fel mater o frys.

Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn cadarnhau bod y mater hwn wedi cael sylw.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg neu Saesneg We welcome correspondence in Welsh or English

c.c. Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Chris Jones, Prif Weithredwr, Gofal a Thrwsio Cymru